



Fframwaith cymwyseddau iaith ar gyfer ymarferwyr addysg



Lefel Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd/Cymraeg i Oedolion						
Dim sgiliau iaith Gymraeg	Cyn-fynediad	A1/Mynediad	A2/Sylfaen	B1/Canolradd	B2/Uwch	C1/Hyfedredd
Nodweddion y gweithlu Cyfrifiad Blynnyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY): Codau gallu yn y Gymraeg						
W1	Defnydd HCA yn unig	W2	W3	W4	W5	W6
Gwranddo	Dim sgiliau. Rwy'n gallu deall ac ymateb i gyfarchion, cwestiynau a geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i frawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, pan fydd y siarad yn bwylllog.	Rwy'n gallu deall ac ymateb i amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. <i>themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.</i>	Rwy'n gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. <i>mewn sgwrs neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach.</i>	Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, e.e. <i>mewn cyd-destun ffurfiol.</i>	Rwy'n gallu deall ac ymateb i bron popeth sy'n cael ei glywed, gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr.
Llafar	Dim sgiliau. Rwy'n gallu ynganu'r wyddor a dweud geiriau syml yn ddigon cywir yng nghyd-destun yr ysgol. Rwy'n gallu cyflwyno fy hun a dechrau rhyngweithio'n gymdeithasol trwy ddefnyddio ymadroddion pob dydd cyfarwydd, e.e. <i>cyfarchion, diolch, canmol dysgwyr a rhoi gorchmynion syml.</i>	Rwy'n gallu cyflwyno fy hun ac eraill ar lafar. Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. <i>ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud.</i> Rwy'n gallu defnyddio amseroedd y ferf a rhifau.	Rwy'n gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. <i>themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.</i>	Rwy'n gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Rwy'n gallu disgrifio profiadau a gobeithion, ac yn gallu rhoi esboniadau cryno dros fy marn. Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Rwy'n gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Rwy'n gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Rwy'n gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, ac yn gallu cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rwy'n gallu rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen.
Darllen	Dim sgiliau. Rwy'n gallu deall cyfarchion a gorchmynion syml. Rwy'n gallu darllen unrhyw ymadroddion a ddefnyddir mewn testun syml. Rwy'n gallu deall manylion personol elfennol iawn, e.e. <i>enw a chyfeiriad.</i>	Rwy'n gallu deall testunau ysgrifenedig byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth bersonol syml amdany'n nhw eu hunain neu eraill, e.e. <i>ffurflenni, arwyddion yr ysgol.</i> Rwy'n gallu darllen gorchmynion sy'n addas i gyd-destun yr ysgol.	Rwy'n gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythyron/e-byst syml. Rwy'n gallu darllen straeon syml ar goedd gydag ymgais i ynganu'n gywir.	Rwy'n gallu deall erthyglau neu e-byst uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd gan ynganu'n gywir ar y cyfan.	Rwy'n gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, ac yn gallu llithr ddarllen (sganio) trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	Rwy'n gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ac ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Rwy'n gallu darllen straeon ar goedd i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.
Ysgrifennu	Dim sgiliau. Rwy'n gallu ysgrifennu geirfa syml a ddefnyddir yn gyson yng nghyd-destun yr ysgol gyfan yn gywir.	Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. <i>cyfarwyddiadau, cwestiynau, gorchmynion, adborth syml.</i>	Rwy'n gallu ysgrifennu brawddegau cyfansawdd/cymhleth at ddibenion addysgol.	Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol. Rwy'n dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Rwy'n gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth golygyddol. Rwy'n gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Rwy'n gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Rwy'n gallu ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Rwy'n gallu hunangywiro lle bo angen.